**PWYLLGOR PENSIYNAU 06-07-2026**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:**

Stephen Churchman, Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy), John Brynmor Hughes, Elin Hywel, Gwynfor Owen, Geraint Parry, John Pughe Roberts, Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Swyddogion:**

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a Wahoddwyd:**

Osian Roberts (Archwilio Cymru)
Ned Michael (arsylwi ar ran y Bwrdd Pensiwn)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd ail ethol y Cynghorydd Elin Hywel yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2026/27**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd ail ethol y Cynghorydd John Pughe Roberts yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2026/27**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION**

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26ain o Chwefror 2026 a'r 16eg o Fawrth 2026 fel rhai cywir.

**7. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC)**

Amlygodd y Rheolwr Buddsoddi bod yr adroddiad bellach yn un rheolaidd sy'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau i nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar waith Partneriaeth Pensiwn

Cymru ynghyd a phenderfyniadau cyfarfod mis Mawrth o'r Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLl - corff sy'n gwneud penderfyniadau dros y Bartneriaeth gyda Chadeirydd pob cronfa yn eistedd arno). Yn dilyn diweddariad mewn sesiwn gwybodaeth ddiweddar yn sgil sefydlu cwmni WPP IM Co, nodwyd mai hwn oedd y Cyd Bwyllgor Llywodraethu olaf yn ei ffurf bresennol.

Adolygwyd y Cynllun Busnes ar gyfer 2025/26, a cyflwynwyd cynlluniau busnes y dyfodol i'r Cydbwyllgor; cynllun busnes oedd yn amlygu sut bydd y Partneriaeth Pensiwn Cymru presennol yn gweithredu yn ystod y cyfnod trosiannol, ynghyd â Cynllun Busnes WPP IMCo am y flwyddyn 2026. Cymeradwywyd y dogfennau hyn yng nghyfarfod Pwyllgor Pensiynau Gwynedd 16-03-2026.

Cafwyd diweddariad ar waith y gweithredwr a'r cronfeydd sydd gan y Bartneriaeth wedi'i sefydlu ynghyd a manylder am waith y gweithredwr dros y cyfnod ac unrhyw amodau'r farchnad maent yn eu monitro. Yng nghyd-destun perfformiad y cronfeydd nodwyd eu bod wedi wynebu amodau heriol gyda'r marchnadoedd yn gyfnewidiol yn y cyfnod dan sylw.

Cyfeiriwyd at y gwaith mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ei wneud ynglŷn ag agwedd tuag at eithriadau, gyda pholisïau buddsoddi cyfrifol bellach wedi eu diweddaru i gwmpasu nifer o eithriadau, megis pŵer o glo thermal, arfau dadleuol a chwmnïau sydd yn torri rheolau yn barhaus.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod rôl y Pwyllgor yn newid yn sylweddol – y rôl yn ymddangos fel rôl o graffu yn hytrach na rôl gyfrifol
- Angen sicrhau bod Aelodau'r Gronfa yn cael dychweliadau da - a oes gwrthdaro yma rhwng Llywodraeth San Steffan yn defnyddio arian Cronfeydd Llywodraeth Leol at eu dibenion hwy? Angen sicrhau nad oes gwrthdaro
- Bod angen i'r Pwyllgor fod yn effro i'w rôl newydd
- Awgrym y dylai Aelodau'r Pwyllgor gael cyfarfodydd gyda Rheolwyr y Gronfa fel bod modd iddynt gael gwybodaeth gyfredol am fuddsoddiadau – pryder, petai IMCo yn cam-fuddsoddi, Aelodau'r Pwyllgor fydd yn debygol o gael eu gweld ar fai am gam fuddsoddi arian cyfranogwyr Cronfa Gwynedd.
- Y Pwyllgor angen sicrwydd mai buddion Aelodau'r Gronfa yw'r flaenoriaeth

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag 'echdynnu cronfeydd olew a nwy anghonfensiynol' ac os oedd hyn yn cynnwys ffracio nododd y Rheolwr Buddsoddi y byddai yn ceisio'r wybodaeth ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Yn yr un modd, byddai hefyd yn ceisio ateb i gwestiwn ynglŷn â beth yw diffiniad y gair 'dadleuol' yng nghyd-destun gwaharddiadau sydd yn cael eu cymhwyso i fuddsoddiadau mewn cwmnïau sydd yn ymwneud a chynhyrchu arfau dadleuol. Ategwyd, gyda'r Llywodraeth yn bwriadu cyfrannu £15 biliwn ychwanegol at Drawsnewid Lluoedd Arfog y DU, a chyfloedd tebyg yn codi i fusnesau a buddsoddi mewn technoleg ar gyfer y Lluoedd Arfog, ystyriwyd y byddai mwy o wybodaeth am y sefyllfa yn fanteisiol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â defnydd parhaus Partneriaeth Pensiwn Cymru o ddefnyddio'r enw Operation Snowdon yn hytrach na Phrosiect Yr Wyddfa, nodwyd bod Aelodau a Swyddogion yn parhau i wthio i amlygu'r newid ond nad oedd gweithrediad ar y mater. Nododd y Pennaeth Cyllid bod hyn yn rhwystredig, ond gyda'r prosiect bellach wedi dod i ben, y gobaith yw na fydd mwy o sôn amdano wrth symud ymlaen.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y gellid dylanwadu ar wariant isadeiledd ac os daw cyfleoedd yn lleol i fuddsoddi mewn prosiectau i wella safonau byw'r ardaloedd hynny sydd yn cyfrannu at y Gronfa, nodwyd mai prif gongl faen yr ymgynghoriad Addas

I'r Dyfodol oedd defnydd arian aelodau'r Gronfa. Ategwyd petai cyfleodd yn codi, mai rôl y cwmni fydd edrych ar y cyfleoedd hynny, ond bod rhaid i'r Pwyllgor gadw ffocws ar ddychweliadau; bydd angen i'r Pwyllgor yn ei rôl fel ymddiriedolwyr, ystyried buddsoddiadau gyda dychweliadau teg, heb godi gobeithion yn lleol. Nododd y Cadeirydd bod modd i'r Pwyllgor adnabod cyfleoedd buddsoddi eu hunain.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi diweddariad chwarterol Partneriaeth Pensiwn Cymru**

## 8. FFORWM CRONFA BENSIWN AWDURDODAU LLEOL (LAPFF)

Cyflwynwyd adroddiad yn egluro am waith Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF) sydd yn gwneud gwaith da o hyrwyddo'r safon uchaf o lywodraethu corfforaethol i ddiogelu gwerth hirdymor Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Stephen Churchman, sydd yn aelod o'r Bwrdd Gweithredol i egluro ymhellach, a sut y gall y fforwm gefnogi a chynorthwyo gwaith Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Eglurodd y Cyng. Stephen Churchman ei fod wedi bod yn Aelod o'r Fforwm ers bron i 8 mis ac yn yr amser hynny bod 5 cyfarfod fforwm o'r Fforwm wedi ei gynnal. Nododd bod y cyfarfodydd yn cael eu rhannu yn ddau gyfarfod - y cyfarfod cyntaf yn un i'r Gweithredwyr drafod cynnwys y rhaglen a'r adroddiadau fydd yn cael eu cyflwyno i'r ail gyfarfod sef y cyfarfod busnes. Ystyriodd bod y drefn yn rhoi dealltwriaeth dda o gyd-destun y gwaith gyda gwahoddiadau yn cael eu hymestyn i gynrychiolwyr cronfeydd pensiwn a phwls; bydd pawb yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y trafodaethau.

Ategodd mai un mater oedd wedi dwyn ei sylw yn ddiweddar oedd ystyriaethau i'r maes 'cemegion am byth' - cemegion sydd bron yn anorchfygol erbyn hyn gyda miloedd o dunelli ohonynt yn treiddio i mewn i'r eco system gan greu her amgylcheddol systemig, creu risg i iechyd pobl (er nad yw'r effeithiau wedi eu profi hyd yma), llygredd a halogiad dwr. Nododd bod LAPFF yn ymgysylltu gyda'r cwmnïau hynny sydd yn cynhyrchu deunyddiau (sydd yn cynnwys y cemegion hyn - o ddillad, i golur, offer cegin ac eraill) a gyda chwmnïau cyfleusterau dŵr i drafod sut y maent yn ceisio cyfarch y broblem sydd a photensial o arwain at risg ariannol a chyfreithiol a all yn y pendraw gael effaith ar fuddsoddwyr. Awgrymodd y dylai'r Pwyllgor fod yn effro i'r mater.

Wrth gloi, nododd bod LAPFF yn ymgysylltu ar ran buddsoddwyr (yn debyg iawn i waith Robeco) ac hefyd yn ymddwyn fel corff sydd yn hyfforddi a chefnogi Pwyllgorau - yn sefydliad amrywiol iawn.

Diolchwyd am y wybodaeth

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol,

- Bod defnydd o'r Fforwm yn gyfle da i dderbyn adborth, arweiniad a gwybodaeth ynglŷn ag ymgysylltu mewn materion penodol
- Cais i'r Cynghorydd holi'r Fforwm ynglŷn â'r ffordd orau o ymgysylltu gyda'r pwnc cemegion am byth - amlwg yn faes sydd yn codi pryder
- Gwerthfawr gwybod bod y corff yn gweithio ar ran y Pwyllgor drwy ofalu bod y Pwyllgor yn gwneud buddsoddiadau cyfrifol a stiwardiaeth

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

9. **CYFRIFON DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2026**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2026. Amlygwyd bod y cyfrifon (drafft) yn destun archwiliad sy'n cael ei weithredu gan Archwilio Cymru

Adroddwyd bod y cyfrifon yn dilyn ffurf statudol CIPFA gyda'r canllawiau yn dehongli beth sy'n cael ei gyflwyno yn y cyfrifon ac nad oedd dim newid yn y canllawiau o'r flwyddyn ddiwethaf.

Mynegwyd bod y flwyddyn wedi bod yn un prysur i'r Gronfa a gwaith yn parhau mewn buddsoddi yn ehangach gyda Partneriaeth Pensiwn Cymru. Cyfeiriwyd at grynodeb o gyfrif y Gronfa gan dynnu sylw at ychydig o amrywiadau yn y cyfraniadau a'r buddion. Nodwyd bod lleihad yn y costau rheoli wrthi fathau gwahanol o fuddsoddiadau gael eu cyflwyno i'r portffolio a drwy leihau buddsoddiadau gyda grŵp Partners sydd wedi cael ffioedd rheoli uwch yn hanesyddol. Ategwyd bod yr incwm buddsoddi wedi cynyddu wrth i'r Gronfa dderbyn incwm rheolaidd gan y buddsoddiadau newydd megis isadeiledd ac ecwiti preifat o fewn cronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru gyda chynyddu o oddeutu £280 miliwn yng ngwerth marchnad y gronfa sydd yn unol â'r cynnydd graddol blynyddol.

Tynnwyd sylw at y nodiadau statudol oedd yn rhoi manylion pellach tu ôl i'r ffigyrau, gweithgareddau'r Gronfa, a Phartneriaeth Pensiwn Cymru, gan fod y Bartneriaeth yn rhan flaenllaw bellach o waith y Gronfa.

Ategodd y Pennaeth Cyllid ei fod, fel Swyddog Adran 151 wedi arwyddo'r cyfrifon drafft gan dderbyn eu bod yn adlewyrchiad cywir a theg o'r sefyllfa.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith o ddod ar cyfrifon at ei gilydd - yn waith sylweddol a chymhleth wedi ei gyflwyno yn dda a phroffesiynol

Diolchwyd hefyd i waith PPC am fod yn bennaf gyfrifol am y rhesymau dros y cynnydd

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyfanswm asedau net y gronfa sydd ar gael i ariannu buddion ar ddiwedd y cyfnod adrodd - y gwahaniaeth rhwng 31 Mawrth 2025 a 31 Mawrth 2026 yn £362 miliwn, ac os oedd hwnnw, sydd yn ffigwr anhygoel, yn ffigwr cywir, cadarnhawyd gyda maint y gronfa bellach yn £3.6 biliwn bod y Gronfa bellach yn delio gyda ffigyrau mawr - y ffigwr yn cynrychioli 10% o gynnydd sydd yn cyd-fynd a chynnydd dros y blynyddoedd diwethaf. Nodwyd y bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor nesaf yn cefnogi ac egluro'r ffigyrau mewn mwy o fanylder ac yn cynnwys Gwybodaeth ar sut mae'r Gronfa wedi cynyddu dros y blynyddoedd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gwerth y farchnad, cadarnhawyd bod y ffigyrau wedi eu selio ar werth y farchnad ar Fawrth 31ain 2026.

Sylw yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- Bod yr incwm wedi codi oherwydd newid yn y buddsoddiadau sydd yn cael eu gwneud (cynnydd o £65.8miliwn i £84.8 miliwn) - yn amlygu bod y newidiadau yn cyfateb i'r newid i sut mae pensiynau yn ymateb i sefyllfaoedd.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn (yn amodol ar archwiliad) ar gyfer 2025/26.**

## 10. CYNLLUN ARCHWILIO CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2026

Croesawyd Osian Roberts (Archwilio Cymru) i'r cyfarfod.

Yn unol â chyfrifoldeb statudol Archwilwyr Allanol, cyflwynwyd Cynllun Archwilio Manwl ffurfiol ar gyfer cyfrifon 2025-2026 oedd yn egluro sut roedd Archwilio Cymru yn mynd i gynnal yr Archwiliad.

Tynnwyd sylw at y lefel perthnasedd y datganiadau ariannol gan nodi and oedd Archwilio Cymru yn ceisio lefel sicrwydd llwyr ynghylch cywirdeb a thegwch y datganiadau, ond yn mabwysiadau cysyniad perthnasedd - lefel perthnasedd Cynllunio yn 1% o'r asedau gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol archwiliedig 2024 -2025. Yng nghyd-destun lefel perthnasedd datgeliadau partïon cysylltiedig - prif bersonél rheoli, nodwyd bod y lefel perthnasedd wedi ei osod ar £1,000.

Cyfeiriwyd at y risgiau gan nodi bod y 'risg o wrthwneud gan reolwyr' yn risg gorfodol sydd wedi ei gynnwys ymhob cynllun yng Nghymru fel rhan o weithdrefn Archwilio Cymru. Nodwyd y bydd ffocws hefyd ar y risg 'balansau asedau buddsoddi' oherwydd bod rhai balansau yn anoddach i'w gwerthuso nac eraill - yr un broses sydd wedi ei dilyn dros y blynyddoedd ac sydd bellach wedi hen sefydlu. Nid oedd risgiau ychwanegol wedi eu hadnabod.

Amlygwyd y byddai gwaith archwilio'r datganiadau ariannol yn cael ei gwblhau yn ystod mis Medi gyda bwriad o gyflwyno adroddiad ar y datganiadau yn ystod Tachwedd 2026. Cyflwynwyd enwau'r tîm archwilio, yr amcan ffi (oedd yn cynnwys cynnydd mewn chwyddiant) a llinell amser y gwaith fydd yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn,

Diolchwyd am yr adroddiad ac i Osian Roberts am fynychu'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi cynnwys Cynllun Archwilio Cronfa Bensiwn Gwynedd 2026**

## 11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

**Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â phroses gaffael arfaethedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor a'i bartneriaid drwy danseilio cystadleuaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.**

## 12. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO - ADRODDIAD YMGYSYLLTU 01.10.2025-31.12.2025

Cyflwynwyd adroddiad chwarterol yn crynhoi'r gwaith mae Robeco (Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC) yn cyflawni ar ran y Gronfa Bensiwn ar faterion buddsoddi cyfrifol.

Cyfeiriwyd at y meysydd oedd wedi cael sylw Robeco yn ystod y chwarter dan sylw a'r wybodaeth oedd yn cynnwys manylion am y nifer gweithgareddau a'r ymgysylltu a gwblhawyd gyda rhai cwmnïau mawr gyda phwysigrwydd rhyngwladol. Nodwyd hefyd mai thema ymgysylltu'r chwarter dan sylw oedd Hawliau Cyfranddalwyr.

Trafodwyd y wybodaeth

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylw yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- Er derbyn natur y gwaith, anodd oedd gweld sut mae'r gwaith yn perthnasu gyda phenderfyniadau PPC a gweld effaith y gwaith ar benderfyniadau'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi'r wybodaeth**

## 13. PERFFORMIAD BUDDSODDI CRONFA BENSIWN GWYNEDD HYD AT 31 MAWRTH 2026

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar berfformiad y Gronfa hyd at Mawrth 31ain 2026. Trafodwyd perfformiad y Rheolwyr Buddsoddi mewn manylder a'r gwaith sydd yn mynd yn ei flaen i symud tuag at y dyraniad asedau newydd.

Diolchwyd am yr adroddiad

Trafodwyd y wybodaeth

Sylw yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- Yn hapus iawn gyda'r perfformiad er ychydig tu ôl y meincnod

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn a nodi'r wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben 15:00